# Nodyn Cyfarwyddwyd - Proses Ardoll Seilwaith Cymunedol

**Cefndir**

Mae'r Nodyn Cyfarwyddyd hwn yn nodi'r prosesau sy'n gysylltiedig â chodi tâl a chasglu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC). Daeth Rhestr Codi Tâl yr ASC i rym ar 1 Gorffennaf 2014, ac mae'r holl gydsyniadau perthnasol a roddir ar ôl y dyddiad hwnnw yn atebol i dalu'r ASC. Nodyn Cyfarwyddyd: A yw datblygiadau yn atebol am dalu'r ASC? Bydd hyn yn cynorthwyo i ddarganfod a fydd angen i ddatblygiad arfaethedig dalu'r ASC.

**Proses ASC**

| CAM 1 |
| --- |
| **Rhaid i'r sawl sy'n gwneud cais am ddatblygiad a fydd, neu efallai a fydd, yn atebol i ASC gyflwyno Ffurflen Cwestiynau Ychwanegol cyn i Gais Cynllunio gael ei ddilysu. Ym mwyafrif yr achosion, bydd y Ffurflen Cwestiynau ASC yn cynnwys gwybodaeth ddigonol i'r Cyngor allu cyfrifo'r atebolrwydd ASC. Serch hynny, efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth mewn rhai achosion, fel ceisiadau mawr neu gymhleth.** |

Ni fydd y Cyngor yn dilysu ceisiadau cynllunio nes ei fod wedi derbyn Ffurflen Cwestiynau Ychwanegol ASC.

| CAM 2 |
| --- |
| **Pan fydd y Cyngor yn rhoi caniatâd cynllunio, bydd ef yn cyflwyno Hysbysiad Atebolrwydd ASC, ynghyd â'r Hysbysiad o Benderfyniad. Mewn sefyllfaoedd lle caiff caniatâd ei roi ar apêl, caiff yr Hysbysiad Atebolrwydd ASC ei gyflwyno cyn gynted ag y bo modd ar ôl i benderfyniad yr apêl gael ei gyflwyno.** |

Mae'r Hysbysiad Atebolrwydd ASC yn nodi cyfanswm yr ASC sy'n ddyledus ar gyfer y datblygiad. Os yw'r sawl sy'n gwneud cais yn ystyried bod y swm wedi cael ei gyfrifo yn anghywir, fe gânt wneud cais a gofyn i'r Cyngor ei ail-gyfrifo. Os yw'r sawl sy'n gwneud cais, ar ôl ail-gyfrifo'r gost, yn dal i ystyried o hyd fod y swm yn anghywir, fe gânt apelio'r penderfyniad. Mae rhagor o wybodaeth yn ymwneud ag apeliadau ASC i'w gweld ar dudalen we'r Porth Cynllunio - Apeliadau ASC.

Bydd Hysbysiad Atebolrwydd ASC yn cynnwys yr holl arwynebedd llawr perthnasol sydd wedi'i gynnwys yn y datblygiad, gan gynnwys arwynebedd llawr a allai fod yn gymwys i gael tai fforddiadwy neu ryddhad elusennol.

| CAM 3 |
| --- |

**Cyn cychwyn y datblygiad, rhaid anfon dwy ffurflen i'r Cyngor. Dyma nhw:**

- **Ffurflen 1 ASC - Derbyn Atebolrwydd (Dyma'r ffurflen sy'n gadael i'r Cyngor wybod pwy fydd yn atebol am dalu'r ASC sy'n ymwneud â'r datblygiad.)**
- **Ffurflen ASC 6 - Hysbysiad Cychwyn (Dyma'r ffurflen sy'n gadael i'r Cyngor wybod pryd bydd y datblygiad yn cychwyn, ac yn ffurfio sylfaen y dyddiadau y daw'r taliadau ASC yn ddyledus.)**

Os na chyflwynir y ffurflenni hyn i'r Cyngor cyn i'r datblygiad gychwyn, bydd gordaliadau cosb yn berthnasol, a bydd y person sy'n atebol i dalu'r ASC sy'n ymwneud â'r datblygiad yn colli'r hawl i dalu mewn rhandaliadau. Cewch gyflwyno'r Ffurflen Derbyn Atebolrwydd, ynghyd â'r cais cynllunio, (neu ar unrhyw bryd rhwng cyflwyno'r cais a chychwyn y datblygiad) pan fydd yn hysbys pwy fydd yn derbyn atebolrwydd i dalu'r ASC.

## CAM 4

**Pan mae datblygiadau yn gymwys ar gyfer tai fforddiadwy, hunan-adeiladu, neu elusen, rhaid i'r datblygwr yrru Ffurflen ASC - Hawlio a Gwneud Cais am Eithriad i'r Cyngor. Mae hawl gwneud cais am y rhyddhad hwn dim ond ar ôl i'r Ffurflen Derbyn Atebolrwydd gael ei gyrru i'r Cyngor. Rhaid iddi gael ei hanfon gan y person sydd wedi derbyn atebolrwydd am dalu'r ASC.**

Os bydd y datblygiad yn cychwyn cyn i'r Cyngor benderfynu swm y Rhyddhad, a chyhoeddi Hysbysiad Atebolrwydd ASC diwygiedig, bydd y cais am ryddhad yn dod i ben, ac ni chaiff rhyddhad ei roi. Mae rhagor o wybodaeth am hawlio rhyddhad yng Nghanllaw ASC y llywodraeth a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2014.

## CAM 5

**Ar ôl i'r Cyngor dderbyn y Ffurflen ASC - Hysbysiad Cychwyn, bydd yn cyhoeddi Hysbysiad Galw i Dalu'r ASC i'r person neu bersonau sydd wedi derbyn atebolrwydd i dalu'r ASC. Mae'r Hysbysiad hwn yn nodi erbyn pa ddyddiad y bydd raid talu'r ASC. Yn ogystal â hynny, mae'r Hysbysiad yn nodi'r swm sy'n ddyledus ym mhob rhandaliad, ac erbyn pa ddyddiad y bydd raid ei dalu.**

Mae Polisi Rhandaliadau ASC yn nodi'r amgylchiadau pan ganiateir talu mewn rhandaliadau.

Mae'r Polisi Rhandaliadau ASC yn nodi polisi'r Cyngor ynghylch talu mewn rhandaliadau. Os na chaiff taliad ei wneud erbyn y dyddiad priodol, bydd gordaliadau cosb yn gymwys. Nid oes gan y Cyngor yr hyblygrwydd i ohirio'r ASC yn yr un ffordd ag y caiff mewn perthynas â rhwymedigaethau cynllunio. Mae modd gorfodi talu'r ASC, drwy'r Llysoedd a thrwy'r broses gynllunio. Mae'r Nodyn Cyfarwyddwyd Cosbau a Gordaliadau ASC yn darparu mwy o wybodaeth am bryd y bydd gordaliadau yn berthnasol, ac ar ba lefel y cânt eu gosod.

Mewn achosion lle caniateir talu mewn rhandaliadau, os na chaiff rhandaliad ei dalu, bydd y Polisi Rhandaliadau yn peidio â bod yn gymwys a bydd cyfanswm yr Atebolrwydd ASC i'w dalu ar unwaith.

| CAM 6 |
| --- |
| **Ar ôl i'r Cyngor dderbyn y taliad ASC, bydd yn cydnabod derbyn y taliad. Pan gaiff taliad terfynol ei dderbyn sy'n ddyledus o ran datblygiad, caiff y Pridant ASC ei symud o'r Gofrestr Pridiannau Tir.** |

Bydd y broses hon yn gymwys ym mwyafrif helaeth yr achosion. Serch hynny, y mae ychydig sefyllfaoedd i'w cael lle efallai bydd y broses yn wahanol. Er enghraifft:

- Lle mae'r ASC yn daladwy ar ddatblygiadau a ganiateir, neu ar ddatblygiadau a ganiateir o dan gydsyniad cyffredinol, fel Gorchymyn Datblygu Lleol neu Ganiatâd Hysbysiad Ymlaen Llaw.
- Pan fydd rhywun yn tynnu'n ôl neu'n trosglwyddo ei atebolrwydd i dalu’r ASC.